# Eglwys Cybi Sant, Caergybi i'r Fali

**Cyfleusterau ac Amwynderau:**
Caergybi – Amrywiol
Bae Trearddur – Amrywiol
Rhoscolyn – The White Eagle
Y Fali – Amrywiol

Toiledau Cyhoeddus: Lleoliadau What3Words
Swift Square Caergybi - ///cassettes.chickens.posed
Bae Trearddur - ///crunchy.reactions.walking

## **Lleoliadau Stamp:** Eglwys Cybi Sant, Caergybi. Eglwys Santes Gwenfaen, Rhoscolyn



**Mae Eglwys Cybi Sant yng Nghaergybi yn adeilad rhestredig Gradd I wedi'i leoli o fewn muriau caer Rufeinig 3$^{edd}$ ganrif Caer Gybi. Dechreuodd addoli Cristnogol yma oddeutu 540 AD, pan roddodd Brenin Maelgwn Gwynedd y gaer segur i Gybi Sant, cefnder i Dewi Sant, a sefydlodd anheddiad mynachaidd ymhlith yr adfeilion. Ar ôl ei farwolaeth ym 555, fe'i claddwyd yn gyfagos, a dywedir yn draddodiadol mai Eglwys y Bedd yw lleoliad ei fedd.**

**Ysbeiliwyd safle'r eglwys gynnar gan ysbeilwyr Llychlynnaidd yn y 10fed ganrif, ac ym 1405 symudodd lluoedd Harri'r Pedwerydd gysegr a chreiriau Cybi i Ddulyn, gan arwain at ostyngiad i bererindodau yma.**

**Mae'r eglwys bresennol yn dyddio'n bennaf o'r 13eg ganrif; mae ei changell ymhlith y nodweddion hynaf sy'n goroesi. Mae'r ffenestri gwydr lliw, a gomisiynwyd oddeutu 1897 gan deulu William Owen Stanley yn enghreifftiau enwog o'r arddull Cyn-Raffaëlaidd. Yn eu plith, ceir darlun trawiadol a phrin o Bren y Bywyd gan Morris & Co. Darganfyddwch fwy.**

## Cyfeiriadau:
Ewch am dro o gwmpas Eglwys Cybi Sant a chaer Rufeinig Caer Gybi cyn cychwyn.

** Mae Eglwys Sant Cybi yn bwynt stamp Llwybr Cybi a Seiriol. **

Os nad ydych yn gallu cael mynediad at y stamp yn Eglwys Sant Cybi, mae copi o'r stamp ar gael i bererinion yn y llyfrgell gyhoeddus. I ddod o hyd i'r llyfrgell, ewch allan drwy'r bwa gyferbyn â mynedfa'r eglwys. Trowch i'r dde a dilynwch y ffordd wrth iddi droelli o gwmpas ac ymlaen ar hyd y stryd fawr. Mae'r llyfrgell gyhoeddus ar y chwith, i fyny ychydig o risiau ac wedi'i lleoli y tu ôl i adeiladau'r stryd fawr. Unwaith y byddwch yn y llyfrgell, trowch yn syth i'r dde i fynd i mewn i'r ystafell "Hanes Lleol". Mae'r stamp wedi'i leoli mewn blwch derw ar y wyneb gwaith.

1. Dechreuwch wrth fynedfa Stryd y Farchnad i Eglwys Cybi Sant (agosaf at brif fynedfa'r eglwys) - mae'r fynedfa wedi'i gosod yn ôl ac wedi'i gwahanu o'r ffordd gan groes

Geltaidd wedi'i hamgylchynu gan feinciau. Ewch i lawr Stryd y Farchnad (chwith), gan fynd heibio Gwesty'r George ar eich chwith. Ar ôl 80 medr, cadwch lygad allan i'r chwith am "bont y Porth Celtaidd i gerddwyr" lle byddwch yn gweld dau fosäig o Cybi Sant a Seiriol Sant yn wynebu ei gilydd. Parhewch ar hyd Stryd y Farchnad gan fyd heibio siopau a chaffis am 80 medr arall, tan i heneb fawr o angor ar y dde i chi yn nodi diwedd y ffordd hon.

2. O'r angor, ewch i'r dde ac yna i'r chwith ar unwaith i ddilyn Ffordd Longford - byddwch yn mynd heibio adeilad capel gwyn â'r arysgrifen "1906 Brynhyfryd" ar eich dde ar ddechrau'r ffordd hon. (160 medr)

3. Mae Ffordd Longford yn mynd heibio Ysgol Santes Fair, yn gwyro rhyw fymryn i'r chwith ac yn troi'n Ffordd Maeshyfryd. Dilynwch y ffordd hon tan iddi ddod i ben wrth gyffordd "Ildiwch" - croeswch yn syth ar draws y gyffordd hon i ddilyn parhad Ffordd Maeshyfryd sydd wedi'i nodi ag arwydd Dim Ffordd Drwodd. (550 medr)

4. Parhewch ar hyd y ffordd fach hon gyda'r fynwent ar eich ochr dde. Ar ddiwedd y fynwent, ewch yn syth ymlaen at lwybr troed wrth ochr y tŷ ar y dde. Pan ddaw'r llwybr hwn allan i'r ystâd dai, cerddwch yn syth ymlaen at y llwybr troed sy'n rhedeg y tu ôl i res o dai, ar ben y clawdd glaswelltog. Ar ddiwedd hwn, edrychwch ychydig i'r dde i weld arwydd llwybr troed a thrac sy'n culhau'n llwybr troed. Ewch dros y gamfa a'r bont fach, ac yna cerddwch yn groeslinol ar draws y cae at gamfa gerrig ac arwydd llwybr troed sy'n arwain allan i ffordd.

5. Wrth y briffordd (Ffordd Porthdafarch) croeswch drosodd i ystâd breswyl Cae Rhos. Parhewch yn syth ymlaen ac ar ôl 70 medr trowch i'r dde i fyny trac glaswellt sy'n cefnu ar waliau gerddi, trwy gât fach i gerddwyr ac yna gât mochyn i fynd â chi mewn i gae agored. Dilynwch y llwybr glaswellt gan gadw at ffin chwith y cae, ac yna pan fydd y ffin chwith hon yn diflannu, parhewch yn syth ymlaen. Yng nghornel chwith uchaf y cae hwn, mae grisiau yn eich cludo dros wal. Parhewch ar dir anwastad i gât fach a grisiau i lawr i ffordd. (500 medr)

6. Trowch i'r chwith wrth y ffordd sydd wedyn yn troi i'r chwith ei hun. Yn fuan wedyn, trowch i'r dde i lawr y trac graean tuag at Tŷ Newydd ac Overdale. Mae'r trac hwn yn mynd heibio "Llyfrgell Ffyn Cŵn," yn mynd dros godiad bach ac yn disgyn rhyw fymryn. Ar ôl tŷ Tre Iago, dilynwch y llwybr ag arwydd i'r chwith trwy gât mochyn. Mae'r llwybr wedi'i ffinio gan wrychoedd ac yn eich tywys i gât rydlyd â chamfa garreg fach ar ei chwith. Croeswch a pharhewch ar draws y cae, gan gadw'r gwrychoedd yn agos ar eich chwith. Mae'r llwybr yn gwyro rhyw fymryn i'r dde ar ben y cae i gyrraedd gât mochyn yng nghanol ffin y cae.

7. Trwy hon, mae'r llwybr bach yn arwain at glwt o goed ac yn cymryd troad crwm i'r dde i osgoi mynd ar gwrs golff ac yn dod i ben ar drac tarmac. Dilynwch y trac gan gael golwg o'r môr sy'n agosáu wrth i chi ddynesu'r gyffordd T ar y ffordd. (1.3 cilomedr)

8. Rydych yn ymuno â Llwybr Arfordir Ynys Môn nawr. Trowch i'r chwith i Lôn Isallt a dilynwch y ffordd dros godiad bach. Mae hon yn eich tywys i fae creigiog bach Porth-y-post. Ar ôl y bae, trowch i'r dde oddi ar y ffordd a dilynwch y llwybr arfordirol ar hyd y pentir sy'n frith â meinciau – man hyfryd i ymgolli yng ngolygfeydd a seiniau'r môr.

**Saib y Pererin**:

what3words ///brand.reddish.dragonfly
Cyfeirnod grid OS SH 2432 7959

9. Parhewch ar y llwybr arfordirol o gwmpas y pentir. Yn y bae nesaf â wal garreg, ailymunwch â Lôn Isallt tua'r dwyrain i gyfeiriad Trearddur. Trowch i'r dde (gweler yr arwydd) i lawr trac tarmac tuag at adeilad trawiadol Craig y Môr, a adnabyddir yn lleol fel "Spooky House". Dilynwch y trac, gan fynd heibio i'r chwith o gât fetel ac yn ôl allan i Lôn Isallt yn y pen draw. Arhoswch ar y ffordd hon i mewn i'r dref, gan gyrraedd Gorsaf Bad Achub yr RNLI yn fuan. (1.8 cilomedr)

**Mae Trearddur yn cynnig caffis, bwytai, siop Spar fach a thoiledau cyhoeddus (ar ben pellaf y promenâd). Gellir gweld blwch crwn bach o'r Ail Ryfel Byd ar y bryn y tu ôl i Westy Bae Trearddur. Gellir cyrraedd hwn ar lwybr troed cyhoeddus drwy'r cae cyfagos. Gwnaed y blwch hwn, sy'n debyg i eraill ar Ynys Môn ond yn unigryw i'r ynys, gyda rwbel lleol yn wreiddiol ac fe'i dyluniwyd i edrych fel 'ffoledd' neu bensaernïaeth gardd. Cafodd y blwch crwn hwn ei adfer yn 2023.**



10. Cerddwch ar hyd y promenâd glan môr neu'r traeth. (700 medr)

**Tua hanner ffordd ar ei hyd, wedi'i osod ychydig yn ôl o'r promenâd byddwch yn gweld croes Geltaidd fileniwm â'r geiriau 'Gweddïwch drosom ni, Santes Ffraid' wedi'i arysgrifennu. Santes Ffraid yw nawdd sant Bae Trearddur, â rhai straeon yn nodi ei bod wedi glanio yno a sefydlu eglwys ar ôl gadael Kildare yn Iwerddon. Mae'r groes yn nodi safle capel coll y Santes Ffraid, sydd wedi cael ei olchi i ffwrdd gan y môr.**

11. O'r promenâd, trowch i'r dde a dilynwch y ffordd am 220 medr. Ychydig cyn y tŷ cyntaf ar y llaw dde, trowch i'r dde dros wall ac i lawr y grisiau at lwybr troed bach. Gellir gweld hysbysiad gwyrdd yn rhoi manylion mynediad a ganiateir i'r pentir. Dilynwch y llwybr hwn uwchben y traeth i heneb a ysbrydolwyd gan long a cheiliog y gwynt.

**Mae'r heneb hwn er cof am Donald Smillie o dŷ Craig y Môr, aelod o Glwb Hwylio Bae Trearddur a fu foddi yn y môr ger Ynys Llanddwyn yn 25 oed.**

12. Yn y pen draw, mae'r llwybr troed yn eich arwain yn ôl i'r ffordd arfordirol lle'r ydych yn troi i'r dde. Dilynwch y ffordd, nesaf at y môr i gychwyn, ac yna o flaen tai, tan i chi gyrraedd Parc Carafannau Lee (1 cilomedr). Dilynwch ffin y mur ar eich dde i arwydd bach ar gyfer Llwybr Arfordir Ynys Môn sy'n pwyntio tua'r môr - dilynwch y llwybr hwn rhwng y glaswellt a'r grug. Mae mainc garreg yn cynnig ei hun fel man i orffwyso. Parhewch ar Lwybr Arfordir Ynys Môn sy'n eich arwain tuag at garafanau sefydlog ac i lawr at ffordd fach. Croeswch y ffordd hon ac ewch i mewn i'r cae y tu hwnt drwy gât mochyn. (2.6 cilomedr)

13. Ar ôl mynd drwy'r gât mochyn, dilynwch ar dir garw i lawr i'r bae gan gadw at arwyddion Llwybr Arfordir Ynys Môn. Dilynwch yr arwyddion wrth iddo arwain ymhellach i ganol y tir, gan fynd heibio dau 'gilbost'/dwy 'golofn' ac yn arwain i drac mwy.

14. Mae'r llwybr yn eich tywys wedyn ochr yn ochr â wal i'ch chwith, dilynwch hwn tan iddo ddod i ben wrth ymyl traeth bychan, ac yna newidiwch i ddilyn y ffens ar eich dde tan i chi gyrraedd gât mochyn yn y ffens. Ewch drwy'r gât mochyn i'r traeth bach â'i gorsleoedd a pharhewch i ddilyn arwyddion Llwybr Arfordir Ynys Môn.

15. Mae'r llwybr yn mynd heibio tŷ gwyn mawr wedyn i gyrraedd ffordd. Trowch i'r dde i'r ffordd ac ewch dros y gamfa garreg nesaf at Gefn y Both. Cadwch at y wal chwith tan i gyrraedd y bwlch ynddi, parhewch wedyn tan i'r llwybr dynnu i ffwrdd tua'r de ar dir anwastad.

16. Mae'r llwybr yn ailymuno â'r wal ac yna'n mynd â chi trwy gât mochyn fetel i fan agored mawr o laswelltir. Mae cerrig sarn mawr a phont ymhellach ymlaen yn eich helpu ar draws gyrsiau dŵr i gyrraedd gât mochyn uchel (y mae disgyniad trawiadol a thraeth bach garw â'r Bwa Du cyn ei chyrraedd).

17. Ar ôl mynd drwy'r gât mochyn ar lwyfandir mawr, dilynwch yr arwyddion i gyrraedd bae creigiog trawiadol o'r new Porth Saint.

**Mae Porth Saint yn cymryd ei enw o chwedl Santes Gwenfaen, a yrrwyd o'i chell gan dderwyddon lleol. Gan ddianc i'r lan, dringodd y stac môr yn y bae ac fe'i cludwyd i ffwrdd i ddiogelwch gan angylion.**

**"Gellid dadlau mai'r morlin yn Rhoscolyn yw'r lle gorau ym Mhrydain Fawr i astudio effaith ffurfiad plygiannau a holltiadau ar gyfres o greigiau gwaddodol wedi'u sadio".** Darganfyddwch fwy.

18. Dilynwch y wal chwith o gwmpas y bae (gan fynd heibio gât mochyn fetel – llwybr byr i Eglwys Santes Gwenfaen – ond yn methu ei ffynnon). Mae'r tir yma yn weddol arw ac anwastad a dylech gymryd gofal. Cadwch at y wal fawr bellach ar y llaw chwith o gwmpas y pentir.

19. Wrth i chi droi pentir mae'r llwybr yn culhau uwchben traeth bach dwfn a chul ac yna'n croesi cwrs dŵr bach. I'r dde, ychydig ar ôl y traeth bach, ceir Ffynnon Santes Gwenfaen. Byddwch yn gweld Begwn Rhoscolyn ar ynys yn y pellter.



Mae Ffynnon Santes Gwenfaen yn safle rhestredig Gradd II. Yn ôl pob tebyg, mae'r ffynnon wedi cael ei defnyddio ers y 6ed ganrif, er ei bod yn debygol bod y strwythur y gellir ei weld heddiw yn dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif. Roedd Santes Gwenfaen yn gysylltiedig â gwella salwch meddwl, ac mae'r traddodiad yn dweud y dylai'r rhai sy'n chwilio am wellhad gynnig dwy garreg cwarts wen yn y ffynnon.

**Tŵr marcio mordwyol hanesyddol ar Ynysoedd Gwylanod** yw Begwn Rhoscolyn. Peintiwyd y tŵr carreg hwn yn goch a gwyn yn hanesyddol ac fe'i defnyddiwyd ers dros ganrif i rybuddio llongau am greigiau peryglus yn yr ardal.

20. Parhewch ar Lwybr Arfordir Ynys Môn tan i chi gyrraedd tŵr gwylio'r RNLI sy'n edrych dros y darn peryglus hwn o forlin. Cadwch y tŵr gwylio ar eich dde ac ymunwch â'r trac y tu ôl iddo. Dilynwch y trac da hwn wrth iddo wyro o gwmpas a'ch arwain i'r tir i gamfa a gât. Ewch dros y gamfa a chadwch at y trac, gan fynd drwy gât mochyn ychydig cyn y tai.

21. Ar ddiwedd y tai, byddwch yn gweld yr eglwys i fyny ac i'r chwith. Trowch i'r chwith a cherddwch at y gât mochyn ar ben chwith uchaf y cae hwn (nesaf at y fynwent). Ewch dros gamfa garreg a chadwch y fynwent ar eich dde i gyrraedd y ffordd, trowch i'r dde a cherddwch at y blaen a mynedfa eglwys Santes Gwenfaen.




**Mae eglwys wedi sefyll ar y safle hwn ers 630 AD, pan gafodd ei chysegru i Santes Gwenfaen, merch Pawl Hen o Fanaw (Ynys Manaw), a sefydlodd ei clasordy yma.**

**Cafodd adeilad diweddarach, a adeiladwyd oddeutu'r 15fed ganrif, ei ddinistrio gan dân yn y pen draw. Mae'r eglwys bresennol yn dyddio o'r gwaith ailadeiladu a wnaed rhwng 1875 a 1879. Yn ystod y gwaith hwnnw, ail-osodwyd yr hen ddrws Gothig canoloesol o'r eglwys gynharach yn wal y de, ac ychwanegwyd porth.**

**Yr hyn sy'n rhyfeddol mewn lleoliad mor wledig yw ansawdd y gwydr lliw: mae ffenestri gan James Powell a'i Feibion yn dyddio o oddeutu 1912, gosodwyd enghreifftiau ardderchog pellach gan Morris & Co ym 1919.**
Darganfyddwch fwy

** Mae Eglwys Santes Gwenfaen yn bwynt stamp Llwybr Cybi a Seiriol. **

22. Ar ôl gorffen yn eglwys Santes Gwenfaen, ewch i lawr ei grisiau a dilynwch y ffordd tua'r dde wrth y gyffordd am 480 medr. Cadwch at y ffordd hon wrth iddi wyro i'r chwith a mynd heibio neuadd yr eglwys lliw gwyn.

23. Wrth y gyffordd nesaf ar y ffordd, trowch i'r dde tuag at 'Traeth Llydan'. Parhewch tan i chi gyrraedd y gyffordd ffordd nesaf 390 medr (wedi'i nodi ag arwydd Dim Ffordd Drwodd) a chymerwch y ffordd ar y chwith, gan ddilyn yr arwydd ar gyfer Llwybr Arfordir Ynys Môn. 100 medr o'r gyffordd, mae llwybr troed yn arwain i'r chwith oddi ar y ffordd trwy gât bren. Dilynwch y llwybr hwn trwy goedwig a chorstir i'w ben (rhannau o lwybr pren – gall rhannau eraill fod braidd yn wlyb).

24. Ar ddiwedd y llwybr pren rydych yn cyrraedd ffordd, trowch i'r dde ar y ffordd hon a pharhewch ar Lwybr Arfordir Ynys Môn am 650 medr. Trowch i'r dde a dilynwch y trac fferm/rhodfa i Ryd y Bont Bach, gan gadw at arwyddion llwybr yr arfordir.

25. Ewch dros y grid gwartheg ac wrth y gât i'r fferm ewch ryw fymryn i'r dde a thrwy gât mochyn i lwybr troed. Ar ben hwn, ceir gât mochyn arall yn arwain i gae mawr â phwll dŵr. Cadwch y pwll ar eich dde, ond dilynwch ei ymyl fel bod gennych ddarn o goetir ar eich chwith a'r fferm y tu ôl i chi.

26. Hanner ffordd ar draws y darn hwn o goetir, mae gât yn eich arwain i mewn i'r goedwig (ceir arwyddion da), parhewch ar y llwybr hwn i gyrraedd gât arall. Ar ôl mynd drwyddi, cadwch y ffin ar eich dde a dilynwch hi i gornel y cae lle ceir gât mochyn arall.

27. Mae'r gât yn eich arwain chi allan i ardal o gorsdir. Dilynwch y llwybr a'r llwybr pren o'ch blaen i dwmpath cerrig yn edrych dros y forfa heli a'r gilfach llanw. (1.5 cilomedr)

**Saib y Pererin**:
what3words ///skis.venturing.mull
Cyfeirnod grid OS: SH 2820 7767

28. Parhewch ar hyd llwybr â darnau o lwybr pren wedi'u gwasgaru ar ei hun. Wrth i'r llwybr pren ddod i ben, cadwch yn glos at waelod y llethr o dan lystyfiant sy'n hongian uwchben ac ewch heibio gychod wedi'u clymu. Cerddwch i fyny'r llithrfa a throwch i'r dde i groesi Pont Rhyd y Bont. (600 medr)

**Mae Pont Rhyd y Bont yn cysylltu Ynys Gybi ag Ynys Môn. Fe'i hadeiladwyd ddechrau'r 16eg ganrif i groesi'r rhan gulaf o Afon Cymyran a hon oedd y brif groesfan dir, a'r unig un yn aml, i deithwyr cyn adeiladu Cob Stanley ym 1823.**

29. Trowch i'r dde i groesi'r bont a cherddwch ar y palmant chwith drwy'r pentref tan i chi gyrraedd y safle bws a'r blwch llythyrau (630 medr). Yma, cadwch at y tai a pharhewch ar hyd y ffordd lai (i'r chwith o'r briffordd) tan i chi weld llwybr troed i'r dde sy'n eich arwain i gylchfan (160 medr).

30. Trowch i'r chwith a cherddwch o'r gylchfan tuag at y bont. Wrth y bont, croeswch y ffordd yn ddiogel i fod ar yr ochr dde a pharhewch drwy'r Fali, dros y groesfan reilffordd ac i'r safle bws a'r maes parcio gyferbyn a Gwesty'r Fali (780 medr).